Cylch Meithrin
PENTREUCHAF

# Datganiad o Ddiben

## Statement of Purpose

# Cylch Meithrin Pentreuchaf

mudiad meithrin

# Datganiad o Ddiben Cylch Meithrin Pentreuchaf
# 2025-2026

**Nod ac Amcanion**

Nod y Cylch Meithrin yw darparu gofal ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg gan roi mwy o gymorth i'r plant di-gymraeg. Darperir cyfleoedd i blant ddatblygu i'w llawn potensial tra yn y Cylch trwy gynnig cwricwlwm a strategaethau dysgu ac addysg y Cyfnod Sylfaen sef dysgu trwy chwarae.

Bydd cyfle i bob plentyn o dan oedran ysgol fanteisio ar brofiadau cyn-ysgol drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Mae hyn yn rhoi profiadau sy'n galluogi plant i fod yn greadigol, defnyddio'u dychymyg a chael hwyl wrth ddysgu.

Croesawir pob plentyn i'r Cylch gwaeth be fo lliw, hil, dosbarth cymdeithasol, sefyllfa deuluol neu anghenion addysgol. Rydym yn gobeithio y bydd eich plentyn yn hapus yn y Cylch ac yn elwa o'r ddarpariaeth.

Gobeithiwn y bydd y llawlyfr hwn o fantais ac yn ateb nifer o gwestiynau sydd gennych am rediad dydd i ddydd y Cylch. Serch hynny mae croeso mawr i chi drafod unrhyw fater gyda'r Arweinydd, aelodau staff neu aelodau o'r pwyllgor ar unrhyw adeg yn ôl y galw.

Mae'r Cylch yn derbyn plant rhwng 2 a 3 oed am 10 awr yr wythnos.

**Nifer y Plant**

Y nifer mwyaf o blant all y Cylch ei dderbyn ar un tro yw 19. Cymhareb oedolion i blant yw 1:3 o dan 2 oed; 1:4 2 oed; 1:8 3-7 oed; 1:10 8-11 oed.

**Oriau Agor**

Mae Cylch Meithrin Pentreuchaf wedi ei gofrestru fel Gofal Dydd Llawn gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.

Cynhelir y sesiynau yn Ysgol Pentreuchaf fel a ganlyn:

Mae'r **Cylch Meithrin** ar agor rhwng 1:30yp a 3:35yp Llun – Gwener dros 39 wythnos y flwyddyn (tymor ysgol) ac eithrio'r gwyliau banc, yn unol â gwyliau ysgol Cyngor Gwynedd.

Mae darpariaeth **Meithrin Mwy** hefyd ar gael rhwng 11.00yb a 1:30yp. Llun – Gwener dros 39 wythnos y flwyddyn (tymor ysgol) ac eithrio'r gwyliau banc, yn unol â gwyliau ysgol Cyngor Gwynedd.

**Lleoliad**

Bydd y sesiynau Meithrin Mwy yn cael eu cynnal yn y Neuadd rhwng 11:00yb – 1:30yp a'r sesiynau Cylch Meithrin yn y Neuadd rhwng 1:30yp-3:35yp.
Bydd y plant Meithrin Mwy yn bwyta eu cinio yn y Neuadd gyda plant Cyfnod Sylfaen yr ysgol rhwng 12:00yp – 1:00yp. Gellir archebu cinio ysgol o flaen llaw ar-lein neu ddod â pecyn bwyd.

**Cofrestru**
Pan fydd eich plentyn yn cychwyn yn y Cylch gofynnir i chi ei gofrestru drwy lenwi'r ffurflenni canlynol.

- Ffurflen Cofrestru - P1
- Cytundeb rhwng rhiant a'r Cylch (byddwch yn cael copi i'w gadw)
- Ffurflen casglu plentyn
- Ffurflen caniatâd tynnu llun
- Ffurflen caniatâd mynd a phlentyn allan o'r Cylch.
- Ffurflen tynnu lluniau ar gyfer gwefan

**Staff**
Darperir y gwasanaeth gan dîm o staff cymwys ac ymroddgar. Trefnir rhaglen o hyfforddiant mewn swydd i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau sydd yn angenrheidiol i ddarparu gofal ac addysg o'r safon uchaf posib.

Gallwch fod yn dawel eich meddwl y bydd y staff yn gwneud pob ymdrech i ofalu bod eich plentyn yn ymgartrefu'n fuan ac yn hapus yn y Cylch. Yn ystod y flwyddyn daw myfyrwyr i'r Cylch ar brofiad gwaith o dan oruchwyliaeth yr Arweinydd.

Yn ystod tymor yr Haf mae'n ofynnol fod gwerthusiad staff yn cael ei gynnal yn y flynyddol er mwyn trafod unrhyw bryderon/sylwadau gan staff a thrafod unrhyw anghenion a hyfforddiant maent ei angen. Mae cyfnodau o bwyllgor staff wythnosol yn rhan o'r broses yma hefyd.

Mae'r Cylch yn derbyn plant ag anghenion ac mewn cysylltiad â Chynllun Cyfeirio Gwynedd. Am fwy o wybodaeth ynglŷn â threfniadau'r Cylch cysyllter â'r Arweinydd.

**Hyfforddiant Staff**
Caiff holl staff y Cylch gyfle i fynychu cyrsiau amrywiol er mwyn ehangu profiadau'r plant. Bydd y Cylch yn cau am 3 diwrnod hyfforddiant yn flynyddol. Os oes achos lle mae mwy na dau aelod o staff yn gorfod mynd ar gwrs yna bydd rhaid i'r Cylch gau am y diwrnod hwnnw.

| | |
|---|---|
| **Arweinydd y Cylch:** | Julie Davies |
| **Cynorthwyydd:** | Ffion Hughes |
| **Cynorthwyydd:** | Angharad Wyn Ford |
| **Person Cofrestredig/Unigolyn Cyfrifol:** | Helen Vaughan-Jones |

**Pwyllgor y Cylch**
Pwyllgor Rheoli'r Cylch Meithrin sy'n gyfrifol am benodi, cyflogi a diswyddo staff y Cylch. Bydd y Pwyllgor yn sicrhau bod aelodau o staff a benodir a threfniadau staffio'r Cylch yn cydymffurfio a gofynion cofrestru'r Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Bydd hefyd yn ceisio sicrhau bod gan yr holl staff a phenodir gymwysterau cydnabyddedig mewn gofal ac addysg plant ynghŷd â phrofiad perthnasol.
Bydd y Pwyllgor yn cael ei ethol yn ystod Pwyllgor Blynyddol ym mis Gorffennaf pob blwyddyn. Y swyddogion sydd eu hangen yw cadeirydd, ysgrifennydd, trysorydd a pherson cofrestredig. Fe fydd y Pwyllgor yma yn gyfrifol fod y Cylch yn rhedeg yn ddi-drafferth a bod y staff a'r rhieni i gyd yn hapus.

Y trysorydd sydd yn gyfrifol am dalu cyflogau'r staff a chadw llyfr cyfrifon yn nodi holl wariant ac incwm y Cylch am y flwyddyn.

**Aelodau Pwyllgor y Cylch:**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd**: | Mrs Sioned Thomas |
| **Ysgrifenyddes**: | Mrs Alaw Mai Griffith |
| **Trysorydd**: | Mrs Lois Fychan |
| **Person Cofrestredig/Unigolyn Cyfrifol:** | Mrs Helen Vaughan-Jones |
| **Rhif ffôn y Cylch**: | 01758 750600 |
| Ebost y Cylch: | pentreuchafcylchmeithrin@gmail.com |

**Cofrestriad**

Mae Cylch Meithrin Pentreuchaf wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar gyfer derbyn **19 o blant**. Mae'r Cylch yn cael archwiliad bob dwy flynedd. Yn dilyn yr archwiliad bydd y Cylch yn gweithredu ar unrhyw argymhellion. Mae croeso i chi gysylltu gyda'r AGC i drafod unrhyw fater gan gynnwys canmoliaeth yn ogystal.

Arolygiaeth Gofal Cymru, Rhanbarth Gogledd Cymru, Swyddfeydd y Llywodraeth, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, Conwy, LL31 9RZ.
Ffôn: 0300 7900126
Ebost: AGC@llyw.cymru
https://arolygiaethgofal.cymru/

**Derbyn**

Mae'r Cylch Meithrin yn cynnig addysg Feithrin i blant dwy oed hyd at dair oed trwy gyfrwng y Gymraeg. Caniateir hyd at 19 o blant ymhob sesiwn.

**Ffioedd**

Bydd angen talu'n brydlon trwy drosglwyddiad banc cyn diwedd bob mis. Nodir fod angen talu'r swm yma i gadw lle eich plentyn gan gynnwys dyddiau pan nad ydych yn gallu dod. Os na fydd y balans wedi ei dalu o fewn y mis yna ni allwn warantu lle i'ch plentyn. Bydd gofyn i chi dalu drwy cyfri banc y Cylch. Gellir talu'n wythnosol pe dymunir.

**Manylion Banc**

Enw'r Cyfrif: Cylch Pentreuchaf
Côd Didoli: 54-30-07
Rhif y Cyfrif: 34636846

**Ffioedd 2025 - 2026**

**£12.50 - Meithrin Mwy (11:00-1:30)**
**£10.00 - Sesiwn Cylch: (1:30-3:35)**
**£22.50 – am y diwrnod**

**Cynllun Gofal 30 awr**

Gall plant sy'n gymwys gael yr hawl i hyd at **20 awr o ofal plant** sy'n cael ei gyllido gan y Llywodraeth yn ystod tymor yr ysgol, **yn ychwanegol i'r 10 awr** sy'n cael ei ddarparu'n barod gan y Cyfnod Sylfaen. Gall plant sy'n gymwys dderbyn y cynnig; o **ddechrau'r tymor yn dilyn**

**eu trydydd pen-blwydd,** tan y **mis Medi yn dilyn eu pedwerydd pen-blwydd**, pan fyddant yn cychwyn ar addysg llawn amser.

**Gweithdrefnau Covid-19**

Mae'r Cylch Meithrin a'r ddarpariaeth Meithrin Mwy yn glynu'n gaeth i'r gweithdrefnau a nodir yn y 'Polisi ail-agor yn Sgil Covid-19' a'r Asesiad Risg Covid. Mae'r polisi a'r asesiad risg ar gael i rieni eu gweld yn llawn. Cysylltwch gydag Arweinydd y Cylch/Person Cyfrifol am ragor o wybodaeth.

**Polisi Iaith**

Nod y Cylch yw cynnig i bob plentyn cyn ysgol yn ei ddalgylch, y cyfle i gael profiadau cyn ysgol trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Bydd y Cylch yn sicrhau bod ei holl weithgareddau o fewn y ddarpariaeth yn cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hefyd yn sicrhau na fydd unrhyw riant yn cael ei adael allan o unrhyw weithgaredd ar sail eu cefndir ieithyddol.

**Diogelu Plant**

Nod y Cylch yw amddiffyn pob plentyn dan ein gofal. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod hawliau'r plentyn yn flaenoriaeth, a bod y plant yn cael eu hamddiffyn. Rydym yn cefnogi egwyddorion dogfen Hawliau Plentyn y Cenhedloedd Unedig a Deddf Plant 1989. Cred y Cylch fod hapusrwydd, diogelwch a ffyniant pob plentyn yn bwysig.

Mae Pwyllgor Rheoli a staff y Cylch yn dilyn gweithdrefnau Pwyllgor Amddiffyn Plant y Rhanbarth mewn achosion tybiedig o gam-driniaeth. Os bydd y staff yn credu bod plentyn yn cael ei gam-drin, byddant yn gweithredu drwy gysylltu â'r Person Cofrestredig neu/ag Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd. Os oes amheuaeth mai aelod o staff sydd yn cam-drin, yna fe wnaiff y pwyllgor gysylltu â Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r siart llif o beth i'w wneud i'w weld ar hysbysfwrdd y Cylch. Mae staff y Cylch yn mynychu cyrsiau Diogelu Plant yn rheolaidd.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Mae'r Cylch yn gweithredu yn unol â Chôd Ymarfer Anghenion Dysgu Ychwanegol cyfredol ar gyfer Cymru. Ein nod yw rhoi cyfle i bob plentyn fanteisio ar addysg feithrin Cymraeg, waeth beth fo'i angen, ac rydym yn ymrwymo i roi sylw dyladwy i bob plentyn ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Rydym yn cydweithio â'r Cynllun Cyfeirio ag asiantaethau eraill er mwyn sicrhau bod cymorth a chefnogaeth ar gael i'r plentyn a'i deulu.

Rydym yn cydnabod bod anghenion y plentyn yn newid ac yn datblygu'n barhaus, ac yn ymrwymo i sicrhau bod ein darpariaeth yn cyfarfod a'i anghenion. Parchwn yr egwyddor o gyfrinachedd ym mhob agwedd o faes anghenion arbennig.

Mae un aelod o'r staff yn gyfrifol am sicrhau bod y Cylch yn gofalu am anghenion y plant hyn, a bydd ar gael i drafod a rhieni os bydd angen.

Bydd y Cylch Meithrin yn llunio Cynllun Chwarae Unigol ar gyfer pob plentyn sydd ag anghenion ychwanegol, yn gweithio ar y cyd gyda'r athrawes cefnogol ar asiantaethau priodol.

**<u>Cyfleusterau</u>**

Mae'r Cylch yn cael ei gynnal yn Neuadd Ysgol Pentreuchaf. Ni all unrhyw un o'r cyhoedd agor drws allanol y Neuadd a chael mynediad i'r Cylch heb ganiatâd yr Arweinydd. Mae'r Neuadd yn cael ei defnyddio pob diwrnod ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau, mae'r ddau ddrws ar glo am yr amser penodol yma. Bydd aelod o staff yn tywys eich plentyn i'r toiled ar bob achlysur. Mae cegin hwylus gerllaw y Neuadd er mwyn paratoi diod a ffrwyth ar gyfer y plant yn ogystal.

O fewn y dosbarth, mae 14 ardal ddysgu trwy chwarae wedi eu sefydlu. Cynigir profiadau amrywiol o fewn yr ardaloedd - y tu mewn a'r tu allan.

- Neuadd fawr yn cynnwys caffi, tŷ bach, tywod, graffeg, adeiladu, byd bach peintio, cerdd ac ardal hydrin.
- Man ymdawelu, mathemateg, ardal darllen a gwrando ar stori. Lle i groesawu'r plant.
- Ardal chwarae tu allan, sleid, tybiau dŵr a thywod, ffrâm ddringo, offer cydbwyso ac offer mawr megis beiciau a sgwteri.

**<u>Gweithgareddau</u>**

Mae themâu gwahanol ar gyfer bob tymor gyda gweithgareddau amrywiol yn cael eu cwblhau ar gyfer y themâu i gyd-fynd â'r chwe maes dysgu sydd yn y cyfnod sylfaen. Yn ystod y sesiwn bydd y plant yn cael cyfle i chwarae efo gwahanol deganau, e.e. beiciau, blociau, clai, ceir bach, cegin, siop, doliau, jig-so i enwi ond ychydig.
Byddent hefyd yn cael cyfle i wrando ar stori, canu gyda cherddoriaeth, ymarfer corff, lliwio, gludo, peintio a thorri allan.
Rydym yn cynnal caffi, ac amrywiaeth o weithgareddau ychwanegol, e.e. Caleb, Mai a Cai, Cynllun Ysgol Iach.
Mae'r ardaloedd canlynol ar gael: darganfod, llyfrau, graffeg, chwarae rôl, adeiladu, cornel cartref, tywod, dŵr, byd bach, hydrin, mathemateg, creadigol, TGCh a cherddoriaeth sydd i gyd yn cydymffurfio â'r Cyfnod Sylfaen tu mewn a thu allan.

**<u>Cyfnod Sylfaen</u>**

Mae gan pob plentyn 3 oed hawl i 10 awr o addysg feithrin am ddim a delir gan yr awdurdod. Mae'r Cylch wedi cael ei rannu i wahanol ardaloedd. Mae'r plant yn dysgu drwy chwarae yn yr ardaloedd - bydd themâu newydd yn cael eu cyflwyno yn rheolaidd. Mae diddordeb, syniadau a phrofiadau'r plant yn ffurfio sylfeini cwricwlwm statudol blynyddoedd cynnar. Bydd y plant yn cael cyfle i ddysgu drwy chwarae, er mwyn eu hannog i fod yn greadigol ac i ddefnyddio eu dychymyg. Mae dysgu drwy chwarae yn sicrhau bod dysgu yn ddifyr ac effeithiol ac yn annog datblygu sgiliau ar draws y meysydd dysgu.

**Meysydd Dysgu:**

1. Datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu.

2. Datblygiad personol a chymdeithasol.
3. Datblygiad mathemategol.
4. Datblygiad gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd.
5. Datblygiad corfforol.
6. Datblygiad creadigol.

**Byrbryd**

Mae'r Cylch yn hybu bwyta'n iach ac fellu gofynnir i'ch plentyn ddod a ffrwyth gyda nhw i'w fwyta yn ystod y sesiwn. Nid yw'r Cylch yn caniatau i blant ddod a grawnwin. Darperir llefrith neu ddŵr gan y Cylch.

**Trefn Canmol a Chwyno**

Croesawn eich sylwadau ar ein gwasanaeth fel y gallwn ei wella os oes angen. Byddwn bob amser yn falch o dderbyn eich canmoliaeth ond os ydych yn anfodlon ar unrhyw agwedd o'n gwaith dylech fynegi hynny i Arweinydd y Cylch/Person Cyfrifol ar lafar i ddechrau ac yna'n ffurfiol drwy ysgrifennu at y pwyllgor. Os na ellir datrys y broblem drwy bwyllgor y Cylch, dylid cysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Ein nod yw darparu gwasanaeth o'r safon uchaf ym mhob agwedd o'n gwaith. Croesawn eich sylwadau fel y gallwn gynnig y gwasanaeth gorau posibl. Dylid cyfeirio unrhyw gwyn pellach at:

Arolygiaeth Gofal Cymru, Rhanbarth Gogledd Cymru, Swyddfeydd y Llywodraeth, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, Conwy, LL31 9RZ.
Ffôn: 0300 7900126
Ebost: AGC@llyw.cymru
https://arolygiaethgofal.cymru/

**Argyfwng Meddygol**

Petai plentyn angen triniaeth feddygol mewn argyfwng a bod y Cylch yn methu cysylltu â'r rhieni na'r personau cyswllt brys arall, bydd y Cylch yn gwneud trefniadau angenrheidiol i sicrhau diogelwch y plentyn.

Mae arwyddo'r cytundeb gofal plant a'r ffurflen gofrestru yn caniatau i'r Cylch i unrhyw driniaeth feddygol brys a allai fod yn angenrheidiol mewn argyfwng.

**Iechyd a Diogelwch**

Bydd y Cylch yn gwneud popeth a all, cyn belled a bo hynny'n rhesymol ymarferol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y plant o dan eu gofal, y staff, myfyrwyr ar brofiad gwaith ac ymwelwyr. Bydd pob plentyn yn cael ei yswirio rhag damweiniau dan gynllun yswiriant Mudiad Meithrin. Pe bai argyfwng yn y Cylch, cysylltir gyda rhieni/gofalwyr yn syth.

Mae'r Cylch yn sicrhau bod o leiaf hanner y staff yn meddu ar Dystysgrif Cymorth Cyntaf cyfredol, ac yn mynychu hyfforddiant yn rheolaidd.

**Argyfwng**

Os digwydd argyfwng yn y Cylch, byddwn yn sicrhau diogelwch y plant ac yna'n cysylltu'n uniongyrchol â phob rhiant i gasglu eu plant.

Mewn sefyllfaoedd arbennig neu mewn achos argyfwng, efallai bydd angen cau Cylch Meithrin Pentreuchaf ar fyr rybudd.  Os fydd angen cau ar fyr rybudd, bydd staff yn cysylltu gyda rhieni/gofalwyr ar Ffurflen Gofrestru Plentyn (P1) gan roi cymaint o rybudd ac sy'n bosib.

Os bydd angen cau mewn argyfwng yn ystod amser sesiwn y ddarpariaeth, bydd y staff yn cysylltu â'r rhieni/gofalwyr drwy ddefnyddio'r rhifau ffôn cysylltiadau brys.  Bydd y staff yn aros gyda'r plant nes eu bod yn cael eu casglu.

Cysylltir gyda'r rhieni/gofalwyr i gadarnhau dyddiad ail agor y ddarpariaeth.

**<u>Damwain</u>**
Darperir Llyfr Damweiniau a Llyfr Digwyddiadau yn y Cylch Meithrin. Os oes damwain neu ddigwyddiad difrifol i blentyn, gweithiwr neu ymwelydd o fewn y cylch, yna mae'n rhaid adrodd am hyn i'r Corff Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn unol â chanllawiau  RIDDOR (Reporting of Injuries, Diseases and Dangerous Occurences Regulations) o fewn 14 diwrnod ac i AGC.Os digwydd argyfwng yn y Cylch

**<u>Salwch</u>**
Os bydd eich plentyn yn dioddef o anhwylder, yn chwydu neu'n dioddef o ddolur rhydd, bydd gofyn i chi gadw eich plentyn o'r Cylch am o leiaf 48 awr ar ôl y symptomau ddiflannu. (Gweler y cytundeb CM/RH am ragor o fanylion ynglŷn â salwch). Os bydd eich plentyn yn mynd yn sâl yn ystod y Cylch byddwn yn eich ffonio neu yn cysylltu gyda'r person sydd wedi ei nodi ar y ffurflen gofrestru.

**<u>Trefn Tywydd Garw</u>**
Bydd Arweinydd y Cylch yn cysylltu â'r unigolyn cyfrifol/person cofrestredig yn gynnar yn y bore. Bydd penderfyniad ynglŷn â chau oherwydd eira yn ddibynnol os yw'r awdurdod yn cau ysgolion ac os y bydd aelodau staff yn gallu cyrraedd y gwaith. Os penderfynir cau'r Cylch am unrhyw reswm, bydd yr Arweinydd yn cysylltu â'r rhieni drwy neges destun, ffôn, Facebook ac ebost i roi gwybod iddynt.

Petai tywydd gwael yn taro tra bod y plant yn y Cylch, bydd yr Arweinydd yn gwneud y penderfyniad i gau a'i peidio, gan gadw'r canlynol mewn cof:
A yw'r ysgolion lleol yn cau?
A yw hi'n ddiogel i rieni gasglu'r plant?
A all y staff gyrraedd adref o'r gwaith?

Cysylltir â'r rhieni yn yr un modd.

**<u>Cyfle cyfartal</u>**
Ein bwriad fel Cylch yw sicrhau fod pob unigolyn yn cael yr un parch a chyfle. Ni fyddwn yn gwahardd plentyn beth bynnag ei genedl, rhyw, hil, lliw, crefydd, oed, anabledd, statws priodasol, diwylliant neu ddosbarth cymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys mynediad i weithgareddau, triniaeth gyfartal a pharch tuag at bob unigolyn.

**Clytiau**
Nod y Cylch Meithrin yw sicrhau nad yw plentyn yn cael ei wrthod os yw'n dal i ddefnyddio clytiau, ond yn hytrach i gydweithio â'r rhieni/gofalwyr i hyfforddi plentyn i allu defnyddio'r tŷ bach bob tro. Bydd staff y Cylch yn dilyn gweithdrefn a pholisi'r Cylch hefo newid clytiau. Gofynwyn i'r rhieni sicrhau eu bod yn dod â dillad i'r plentyn newid os bydd yn glychu.

**Rheoli ymddygiad**
Ein nod yw darparu amgylchedd sy'n seiliedig ar ganllawiau clir, teg a chyson sy'n hyrwyddo dealltwriaeth plentyn o ymddygiad derbyniol. Mae staff y Cylch wedi cael ei hyfforddi i weithredu dulliau cadarnhaol o reoli ymddygiad. Credwn fod cosbi plant yn gorfforol yn annerbyniol.

**Bwlio**
Ni fydd unrhyw fath o fwlio yn dderbyniol o fewn y Cylch. Bydd y staff yn cymryd achosion o'r fath o ddifrif ac annog plant i siarad. Bydd unrhyw ymddygiad sy'n achosi gofid yn cael ei drafod gyda'r rhiant.

**Strwythur**
Mae'r Cylch yn dilyn nifer o wahanol raglenni, e.e

- Strategaethau'r Cyfnod Sylfaen
- Cynllun Cyn Ysgol Iach

**Hawliau Plant**
Yn unol ag egwyddorion Mudiad Ysgolion Meithrin, mae'r Cylch yn cydnabod fod hawliau plant yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unigol ar Hawliau Plant a Deddf Plant 1989 yn holl bwysig.

**Cyswllt â'r ysgol**
Mae'r Cylch yn cyd-weithio'n agos iawn gyda'r ysgol, e.e. rhannu gwybodaeth ac adnoddau, cefnogaeth, polisïau ac asesiadau risg ac ati.
O brofiad, mae'r plant yn trosglwyddo'n naturiol o'r Cylch i ddosbarth Meithrin yr ysgol yn flynyddol gan eu bod yn gyfarwydd â'r staff ac amgylchedd dysgu'r ysgol.

Ardaloedd Cofrestredig y Cylch Meithrin oddi fewn i'r ysgol [Gweler yr atodiad].

**Polisïau**
Wrth ymuno â'r Cylch Meithrin mae'r rhieni/gofalwyr yn cael eu hysbysu o Lyfr Polisïau'r Cylch. Mae hwn yn nodi polisïau a threfn y Cylch yn y mannau canlynol:-

| RHESTR O BOLISIAU CYFREDOL CYLCHOEDD MEITHRIN (MEDI 2025) |
|---|
| YR IAITH GYMRAEG (2022)<br>*THE WELSH LANGUAGE (2022)* |
| AMDDIFFYN RHAG YR HAUL (2013)<br>SUN PROTECTION (2013) |
| *ASTHMA (2019)*<br>*ASTHMA (2019)* |
| BRECHU: YMARFERWYR (2022)<br>VACCINATION: PRACTITIONERS (2022) |
| BYW GYDA COVID-19 (2022)<br>*LIVING WITH COVID-19 (2022)* |
| BYW’N IACH: BWYTA’N IACH A CHADW’N HEINI YN Y CYLCH MEITHRIN (2019)<br>*HEALTHY LIVING: HEALTHY EATING AND KEEPING FIT AT THE CYLCH MEITHRIN (2019)* |
| CADW PLANT RHAG CRWYDRO / PLENTYN AR GOLL (2017)<br>*PREVENTING CHILREN FROM WANDERING / LOST CHILD (2017)* |
| CAMDDEFNYDD ALCOHOL A CHYFFURIAU (2019)<br>DRUGS AND ALCOHOL MISUSE POLICY (2019) |
| CANMOL A CHWYNO (2022)<br>*COMPLIMENTS AND COMPLAINTS (2022)* |
| CAU CYLCH DROS DRO / YMATEB I DDIGWYDDIAD O ARGYFWNG (2023)<br>*TEMPORARY CLOSURE / RESPONDING TO AN EMERGENCY INCIDENT (2023)* |
| CLUDO A THROSGLWYDDO PLANT (2017)<br>*TRANSPORTING AND TRANSFERRING CHILDREN (2017)* |
| CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH (2020)<br>*EQUALITY AND DIVERSITY (2020)* |
| CYFRINACHEDD A DIOGELU DATA (2019)<br>*CONFIDENTIALITY AND DATA PROTECTION (2019)* |
| CYNHWYSIANT A CHYFLE CYFARTAL (2020)<br>*INCLUSION AND EQUAL OPPORTUNITIES (2020)* |
| CHWYTHU’R CHWIBAN (2013)<br>*WHISTLEBLOWING (2013)* |
| DELWEDDAU A FIDEOS DIGIDOL (2022)<br>*DIGITAL IMAGES AND VIDEOS (2022)* |
| DERBYN (2013)<br>*ADMISSIONS (2013)* |
| DI-FWG (2019)<br>*SMOKE-FREE (2019)* |
| PECYN POLISIAU A CHANLLAWIAU DIOGELU OEDOLION (2022)<br>*PROTECTION OF ADULTS POLICIES AND GUIDELINES PACK (2022)* |

| |
|---|
| DIOGELU PLANT (2021)<br>*CHILD SAFEGUARDING (2021)* |
| E-DDIOGELWCH (2022)<br>*E-SAFETY (2022)* |
| GADAEL A CHASGLU PLANT (2017)<br>*LEAVING AND COLLECTING CHILDREN (2017)* |
| GWEITHIO AR EICH PEN EICH HUN (2017)<br>*LONE WORKING (2017)* |
| HYRWYDDO YMDDYGIAD CADARNHAOL<br>*PROMOTING POSITIVE BEHAVIOUR* |
| GWIRFODDOLI (2020)<br>*VOLUNTEERING (2020)* |
| IECHYD, DIOGELWCH A LLES (2017)<br>*HEALTH, SAFETY AND WELFARE (2017)* |
| LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD<br>*BRIBERY AND CORRUPTION* |
| MEDDYGINIAETH (2020)<br>*MEDICATION (2020)* |
| NEWID CLWT / CEWYN AC HYFFORDDIANT I DDEFNYDDIO'R TOILED NEU'R POTI (2017)<br>*NAPPY CHANGING AND TOILETING (2017)* |
| SALWCH, AFIECHYDON HEINTUS A DAMWEINIAU (2017)<br>*ILLNESS, INFECTIIOUS DISEASES AND ACCIDENTS (2017)* |
| STAFFIO (2013)<br>*STAFFING (2013)* |
| TRAWSNEWID / NEWIDIADAU YM MYWYD PLENTYN<br>*TRANSITIONS / CHANGES IN A CHILD'S LIFE* |
| YMDRIN AG ANIFEILIAID (2019)<br>*ANIMAL HANDLING (2019)* |
| HYRWYDDO YMWYBYDDIAETH AMGYLCHEDDOL A CHYNALADWYEDD<br>*PROMOTING ENVIRONMENTAL AWARENESS AND SUSTAINABILITY* |
| CANLLAWIAU AR GYFER RHEOLI LLAU PEN (2019)<br>*GUIDELINES FOR MANAGING HEAD LICE (2019)* |

Mae'r polisïau yma yn cael eu harwyddo ar ddechrau pob blwyddyn gan Gadeirydd y Pwyllgor/Unigolyn Cyfrifol i gadarnhau fod y Cylch yn mabwysiadu'r holl bolisïau. Wrth gofrestru ac yn ystod sesiwn aros a chwarae caiff y rhieni gyfle i weld y llyfryn polisïau. Ar ôl cael cyfle i ddarllen byddant yn arwyddo ei P1. Mae'r polisïau a'r arferion uchod ar gael i rieni eu gweld yn llawn yn cynnwys Polisi newydd Covid-19. Cysylltwch gydag Arweinydd y Cylch/Person Cyfrifol am ragor o wybodaeth.

Mae'r Arweinydd yn gyfrifol am rediad y Cylch Meithrin o ddydd i ddydd gyda chymorth gan y cynorthwyydd i gynnwys cadw ffeiliau'r plant, ffurflenni cofrestru, rheoli risg, cyfathrebu â'r rhieni am ddatblygiad y plant, sicrhau fod y polisïau yn cael eu dilyn a.y.y.b. Bydd Pwyllgor y Cylch yn cyfarfod o leiaf unwaith y tymor lle gellir trafod unrhyw sylwadau/pryderon gan yr Arweinydd a'r staff, rhieni ac unrhyw faterion neu ohebiaeth eraill sydd yn codi ei ben.

Mae'r Arweinydd yn cynllunio gweithgareddau ar gyfer bob wythnos. Mae themâu gwahanol i bob tymor a gweithgareddau amrywiol yn cael eu cwblhau ar gyfer y themâu i gyd-fynd â'r saith maes dysgu a diddordebau'r plant.

**Cofnodion ac Adroddiadau**

Bydd llythyr yn cael ei ddosbarthu i'r rhieni bob hanner tymor fydd yn nodi beth fydd y gweithgareddau ar gyfer y tymor hwnnw ac unrhyw wybodaeth bellach fydd yn berthnasol. Mae'r Arweinydd hefyd yn cadw ffeil ar bob plentyn gan nodi ei bresenoldeb a'i ddatblygiad drwy'r flwyddyn. Mae'r ffeil yma yn cael ei chadw dan glo.

Ar ddiwedd bob tymor mae'r Arweinydd yn trafod targedau'r plentyn ac yna ar ddiwedd y flwyddyn cyflwynir adroddiad i'r rhieni a'r ysgol ar ddatblygiad y plentyn trwy'r tymhorau i gyd.

Mae'r staff yn ceisio trafod â'r rhiant ar ddiwedd sesiwn beth mae'r dosbarth i gyd wedi gyflawni. Mae polisi drws agored yn y Cylch felly mae croeso i'r rhiant/gofalwyr drafod â'r Arweinydd/staff unrhyw dro am ddatblygiad ei blentyn yn y Cylch. Mae ystafell ychwanegol ar gael os bydd rhiant angen sgwrs breifat â'r Arweinydd am unrhyw fater.

**Asesu**

Mae'r cylch yn asesu y plant sy'n 2½ ac yn 3 oed trwy gyfrwng Proffil Cryno y Cyfnod Sylfaen. Nodir camau dysgu y plant trwy gyfrwng Deilliannau Dysgu gwahanol, yn ddibynnol ar ddatblygiad unigol pob plentyn. Cyflwynir tasgau ffocws i'r plant ac mae'r sgiliau yn cael eu ymarfer gan y plant o fewn yr ardaloedd chwarae. Gyda chaniatâd rhieni, bydd y Proffil yn cael ei drosglwyddo ymlaen i'r ysgol gyda'ch plentyn.

**Cyrraedd a Gadael**

Bydd drws y Cylch yn agor am 13.30 ac mae'r plant yn cael eu croesawu gan aelod o'r staff. Mae rhiant/gofalwr yn gyfrifol am dynnu côt plentyn a'i roi ar y bachyn yn y cyntedd cyn eu trosglwyddo i aelod o staff.

**Trefn y sesiwn yn y Cylch:**

- Amser cofrestru
- Amser cylch
- Amser chwarae rhydd a chaffi ar agor
- Amser clirio
- Amser gweithgaredd ffocws
- Amser stori/canu/trafod am y diwrnod
- Amser mynd adref

Gofynnir i'r rhiant ddisgwyl am eu plentyn y tu allan i ddrws y Cylch am 15:35. Bydd pob plentyn yn cael eu trosglwyddo i law rhiant. Os na fydd plentyn wedi cael ei gasglu o fewn 15 munud bydd Arweinydd y Cylch yn ceisio cysylltu â'r rhiant ar y ffôn. Dim ond pobl a enwir ar ffurflen P1 y plentyn bydd yn cael casglu'r plentyn o'r Cylch. Mae gan y Cylch hawl i wrthod unrhyw berson sydd heb ei nodi ar y ffurflen. Mae'n hanfodol bod rhieni yn rhoi gwybod i'r Arweinydd yn bersonol os bydd unrhyw berson arall am fod yn casglu'r plentyn ar ddiwedd sesiwn.

**Diogelu Data**

Casglu Data - Mae'r Cylch Meithrin yn ymrwymo i sicrhau'r prosesu diogel a theg o unrhyw ddata a dderbyniwn ac yn cydymffurfio â gofynion y RhDDC (*GDPR*)*. Defnyddir yr

wybodaeth a gesglir ar y ffurflen hon i alluogi'r Cylch i ddarparu'r gofal gorau posibl i'ch plentyn ac nid at unrhyw ddiben arall. Yn unol â rheoliadau storio gwybodaeth gofal plant bydd yn cael ei gadw tan i'r plentyn troi'n 25. O bryd i'w gilydd mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ni rannu gwybodaeth berthnasol gyda rhai asiantaethau'r Llywodraeth fel AGC (asiantaeth sy'n cofrestru, yn arolygu ac yn gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal yng Nghymru), Estyn (asiantaeth sy'n archwilio ansawdd a safonau addysg yng Nghymru) a gwasanaethau cymdeithasol (pe bai angen). Am wybodaeth bellach am weithdrefnau diogelwch data'r cylch ewch i http://www.meithrin.cymru/i-rieni/diogelwch-data/cy/c499/

*Sail gyfreithiol 1(b) ar gyfer prosesu o dan Erthygl 6 a 2(b) o dan Erthygl 9 / *Legal basis 1(b) for processing under Article 6 and 2(b) under Article 9.*

Adolygir cynnwys y Datganiad o Ddiben gan yr Unigolyn Cyfrifol yn ystod Tymor yr Hydref yn flynyddol, neu yn gynt os bydd newid sylweddol i drefniadau'r Cylch.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Mae Cylch Meithrin Pentreuchaf yn ymrwymo i ddarparu cefnogaeth sy'n briodol, ac sy'n cwrdd ag anghenion pob plentyn.

Mae'r Cylch yn dilyn gweithdrefnau Awdurdod Gwynedd gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Am fwy o wybodaeth gweler gwefan: ADYaCh - Cartref

**Cyfeiriad Cylch Meithrin Pentreuchaf**:

| |
|---|
| Cylch Meithrin Pentreuchaf, Ysgol Pentreuchaf, Pentreuchaf, Pwllheli, Gwynedd. LL53 8DZ |
| Rhif ffôn: 01758 750600 |
| Ebost: pentreuchafcylchmeithrin@gmail.com |

**Gwybodaeth Gyswllt Mudiad Meithrin**

Mudiad Meithrin
Y Ganolfan Integredig
Boulevard de Saint-Brieuc
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 1PD
Ffon: 01970 639639
post@meithrin.cymru

**Dymunai'r staff ac aelodau'r Pwyllgor Rheoli groesawu'r plant a rhieni/gofalwyr newydd i'r Cylch. Mae hwn yn gyfle gwych i chi fod yn rhan o gymuned gyfeillgar a bywiog Cylch Meithrin Pentreuchaf.**